



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddosoddi Ewropeaidd**
**European Structural
and Investment Funds**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

Cymorth ar gyfer Pysgotwyr

Gall yr EMFF gynnig y mathau canlynol o gymorth i bysgotwyr.

Cefnogi a Datblygu Busnesau Pysgodfeydd:

1) Gwasanaethau cyngori

Cymorth i gael cyngor proffesiynol er mwyn cynyddu potensial a chystadleurwydd busnesau, yn cynnwys cyngor ar sut i gael gafael ar gredyd a meithrin cydnheredd:

- Astudiaethau dichonoldeb a gwasanaethau cyngori ar gyfer prosiectau pysgodfeydd sydd o bosibl yn gymwys i gael cymorth EMFF.
- Cyngor proffesiynol ar gyfer pysgotwyr / busnesau pysgodfeydd ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac ar strategaethau busnes a marchnata.

2) Arallgyfeirio a ffyrdd newydd o gael incwm

Datblygu gweithgareddau ategol sy'n gysylltiedig â busnes pysgota craidd y pysgotwr:

- buddsoddiadau ar gychod
- twristiaeth pysgota â gwialen
- bwytai
- gwasanaethau amgylcheddol yn gysylltiedig â physgota
- gweithgareddau addysgol yn ymwneud â physgota

Rhaid i bysgotwyr:

- cyflwyno cynllun busnes ar gyfer datblygu eu gweithgareddau newydd a
- meddu ar sgiliau proffesiynol digonol (e.e. cymhwyster/tystysgrif cymhwysedd proffesiynol neu o leiaf 2 flynedd o brofiad)

3) Arloesi ym maes pysgodfeydd

Hyrwyddo dulliau arloesol o ymdrin â'r rhwymedigaeth lanio a physgodfeydd cymysg drwy datblygu neu gyflwyno:

- cynhyrchion neu offer newydd neu sydd wedi'u gwella'n sylweddol
- prosesau a thechnegau newydd neu sydd wedi'u gwella'n sylweddol
- systemau rheoli a threfnu newydd neu sydd wedi'u gwella'n sylweddol

Bydd buddsoddi yn canolbwyntio ar arloesi yn ymwneud â:

- fathau penodol iawn o offer
- lleihau dalfeydd diangen
- trin, prosesu a marchnata dalfeydd

Mae cymorth hefyd ar gael ar gyfer arloesi sy'n gysylltiedig â chadwraeth adnoddau biolegol morol:

- lleihau effaith gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd
- sicrhau defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau biolegol morol a chydfodolaeth ag ysglyfaethwyr gwarchoddedig

Rhaid i brosiectau gael eu cyflawni gan neu mewn cydweithrediad â sefydliad gwyddonol neu dechnegol e.e. prifysgol.

4) Gwelliannau i Gyfleusterau ar y Glannau – porthladdoedd pysgota, manau glanio, neuaddau arwerthu a llochesi

Gwella seilwaith porthladdoedd pysgota, neuaddau arwerthu, manau glanio a llochesi, gan gynnwys buddsoddiadau mewn cyfleusterau casglu gwastraff a sbwriel morol.

Adeiladu neu foderneiddio strwythurau ar gyfer darparu lloches i longau pysgota.

Addasiadau i safleoedd glanio a phorthladdoedd i sicrhau bod y diwydiant yn cydymffurfio â'r ymrwymiad glanio ac i ychwanegu gwerth i ddalfeydd nad oeddent wedi glanio yn flaenorol.

Dylai buddsoddiadau ddatblygu seilwaith a chyfleusterau porthladdoedd pysgota a manau glanio sydd ar gael i ddefnyddwyr ar draws y fflyd pysgodfeydd masnachol. Nid yw eitemau a fyddai'n dod yn asedau o fusnesau pysgota unigol yn gymwys.

Dylai buddsoddiadau wneud mwy na'r lleiafswm y mae cyfraith yn gofyn amdano.

Buddsoddiadau ar Gychod Pysgota:

1) Offer a chyfarpar mwy detholus

Cyfarpar sy'n gwella detholiad meintiau neu rywogaethau'r offer pysgota.

Buddsoddiadau ar gwch neu mewn offer sy'n dileu'r arfer o daflu drwy:

- osgoi a lleihau dalfeydd diangen
- delio â dalfeydd diangen i gael eu glanio yn unol â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

Offer sy'n cyfyngu / dileu effeithiau ffisegol a biolegol pysgota ar yr ecosystem neu wely'r môr.

Cyfarpar sy'n diogelu offer a dalfeydd rhag mamaliaid ac adar a warchodir, ar yr amod:

- nad yw'n tanseilio gallu'r offer pysgota i ddethol; a
- bod yr holl fesurau priodol yn cael eu cyflwyno er mwyn osgoi difrod ffisegol i'r ysglyfaethwyr

Caiff y cymorth ei gyfyngu i'r pysgotwyr hynny sydd wedi bod yn weithredol yn y diwydiant yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Ni ddylai buddsoddiadau cynyddu'r ymdrech pysgota.

2) Gwerth ychwanegol, ansawdd cynnyrch a defnyddio dalfeydd dros ben

Ychwanegu gwerth at gynhyrchion pysgodfeydd, yn enwedig drwy ganiatáu i bysgotwyr brosesu, marchnata a gwerthu eu dalfeydd eu hunain yn uniongyrchol.

Buddsoddiadau arloesol ar gychod sy'n gwella ansawdd cynhyrchion pysgodfeydd.

Gallai buddsoddiadau cymwys cynnwys gweithgareddau i wella amodau storïa ar gyfer dalfeydd ac sy'n rhoi gwell rheolaeth i bysgotwyr dros gymryd cynnyrch i'r farchnad - cyn belled nad yw'n cynyddu'r ymdrech pysgota na cynyddu'r capasiti dal pysgod.

Gallai gweithgareddau hefyd cefnogi atebion arloesol ar gyfer gwella ansawdd y cynnyrch sydd wedi glanio, y rheolaeth drostynt a'r gallu i'w holrhain.

3) Iechyd a Diogelwch

Prynu a gosod offer sydd:

- yn gwella diogelwch pysgotwyr ar fwrdd cychod pysgota
- yn gwella amodau iechyd pysgotwyr ar fwrdd cychod pysgota
- yn gwella amodau hylendid i bysgotwyr ar fwrdd cychod pysgota
- yn gwella amodau gwaith ar fwrdd cychod pysgota

Caiff y cymorth ei gyfyngu i'r pysgotwyr hynny sydd wedi bod yn weithredol yn y diwydiant yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Ni allwn ariannu peiriannau dec sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithrediadau pysgota, fel winshis a craeniau.

Rhaid i'r buddsoddiadau:

- wneud mwy nag y mae cyfraith yn gofyn amdano
- peidio cynyddu'r ymdrech pysgota

Gweler rhestr o eitemau cymwys yn y Nodyn Cyfarwyddyd manwl ar y wefan EMFF. Nid yw'n bosibl i ariannu unrhyw eitem nad yw ar y rhestr honno.

4) Gwella effeithlonrwydd ynni cychod pysgota a gweithgarwch pysgota

Lleihau allyrru llygryddion neu nwyon tŷ gwydr a chynyddu effeithlonrwydd ynni cychod pysgota drwy:

- gwella hydrodeinameg corff y cwch
- gwella system gyriad y llong
- addasiadau i offer sy'n cael ei dynnu / newid o offer sy'n cael ei dynnu i offer arall
- lleihau defnydd o drydan neu'r defnydd o ynni thermol

Archwiliadau a chynlluniau effeithlonrwydd ynni.

Astudiaethau i asesu cyfraniad systemau gyriad amgen a dyluniadau cyrff cychod at effeithlonrwydd ynni cychod pysgota.

Rhaid i'r buddsoddiadau peidio cynyddu'r ymdrech pysgota.

Gweler rhestr o eitemau cymwys yn y Nodyn Cyfarwyddyd manwl ar y wefan EMFF. Nid yw'n bosibl i ariannu unrhyw eitem nad yw ar y rhestr honno.

Symiau'r Grant:

Byddai swm y grant a gynnigir bob amser y swm lleiaf a fyddai ei angen i ganiatáu i'r prosiect fynd rhagddo, a heb fod yn llai na **£2,400 (£800** ar gyfer lechyd a Diogelwch).

Cyfraddau grant uchaf:

- Cyrff cyhoeddus: **100%**
- Pysgotwyr arfordirol graddfa fach (cychod pysgota sy'n mesur o dan 12m o hyd) neu brosiect sy'n gysylltiedig â'r fflyd cychod fechan pysgodfa arfordirol: **80%**.
- Sefydliadau pysgotwyr: **60%**.
- Busnesau bach a chanolig nad ydynt yn bysgotwyr arfordirol graddfa fach (a phrosiectau nad ydynt yn gysylltiedig â'r fflyd cychod fechan pysgodfa arfordirol): **50%**.

Rhagor o wybodaeth:

Gweler

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/european-maritime-fisheries-fund/applying-for-european-maritime-fisheries-fund/?skip=1&lang=cy>

Neu cysylltwch â SMU@cymru.gsi.gov.uk / 0300 062 2218